# Caio Canolbwyntio

Un tro roedd yna fachgen bach o'r enw Caio yn byw mewn byngalo yn Nhreuddyn. Roedd Caio wrth ei fodd yn mynd i'r ysgol a gweld ei ffrindiau. Un diwrnod o wanwyn, yn ystod amser cinio roedd Mali yn sgipio. "Ga i Chwarae?" gofynnodd Caio. "Wrth gwrs gei di" atebodd Mali. Roedd Caio mor gyffroes i ddysgu sut i sgipio. Cymerodd Caio'r rhaff sgipio gan Mali. "Barod Caio 1... 2... 3..." Cychwynnodd Caio sgipio. Ond yn sydyn, sylweddololdd Caio nad oedd o'n gwybod sut a disgynnodd dros ei goesau. "Paid â phoeni" dywedodd Mali. "Gei di fynd a'r rhaff sgipio adref ac ymarfer".

Y noson honno, treuliodd Caio oriau yn yr ardd yn ymarfer ac ar ôl disgyn nid 1, nid 2 ond 3 gwaith cychwynnodd Caio wella. "Hwre!" gwaeddodd Caio. "Rydw i wedi canolbwyntio ac rydw i wedi llwyddo. Rydw i'n edrych ymlaen at gael dangos i Mali yfory."

Trannoeth rhedodd Caio i'r ysgol yn wên o glust i glust. "Mali edrycha arna i." Cychwynnodd Caio sgipio yn gyflym. Roedd Mali yn hynod o falch o Caio ac i ffwrdd a nhw i sgipio gyda'i gilydd.